

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,



Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km²)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**

yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân

gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

### Cyfraddau cyflog cystadleuol -

wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -

Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

### Gwyliau Blynyddol hael –

26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

### Cynllun Hyblyg –

Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

## Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

wedi ymrwymo i leihau ein heffaith amgylcheddol

## Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

Cyflog: £36,124 - £37,938

## YNGLŶN Â'R SWYDD HON

**Rhowch ddisgrifiad swydd yma:**

Rydym yn chwilio am Reolwr Dysgu a Datblygu i gefnogi ein dull o ymwneud ag addysg a datblygiad proffesiynol o fewn yr adran Datblygu Pobl. Bydd y rôl hon yn cefnogi'r Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu i ddarparu swyddogaeth dysgu a datblygu'r Gwasanaeth i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y sefydliad ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

Bydd y rôl hon yn gyfrifol am reoli arferion Dysgu a Datblygu, cynnal arferion gorau mewn strategaethau Dysgu a Datblygu, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyrff dyfarnu allanol.

Bydd y rôl hefyd yn cefnogi mabwysiadu technolegau dysgu digidol a sicrhau rhagoriaeth mewn darparu dysgu ar draws y sefydliad.

Bydd cyfrifoldeb rheoli llinell ar gyfer y rôl Gweinyddwr Gradd 4.

**Pam Ymuno â Ni?**

- Bod yn rhan o sefydliad blaengar sy'n rhoi gwerth ar ddysgu parhaus a thwf proffesiynol.
- Arwain mentrau effeithiol sy'n siapio dyfodol dysgu a datblygu o fewn y sefydliad.
- Gweithio mewn amgylchedd deinamig a chefnogol gyda chyfleoedd i sbarduno arloesedd mewn addysg a hyfforddiant.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Rheolwr Dysgu a Datblygu |
| **RHENG/RÔL:** | Gradd 8 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | ADM.011 |
| **LLEOLIAD:** | Canolfan Hyfforddi Earlswood SA10 6NG |
| **YN ATEBOL I:** | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| | Cefnogi'r Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu i weithredu swyddogaeth dysgu a datblygu y Gwasanaeth i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y sefydliad ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.<br><br>Sicrhau bod arferion dysgu a datblygu yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r theori addysgol ddiweddaraf ac arferion gorau mewn strategaethau dysgu a datblygu.<br><br>Cynnal statws y ganolfan a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyrff dyfarnu allanol.<br><br>Rheoli prosesau datblygu a dilyniant yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).<br><br>Bod yn rhan o fabwysiadu technolegau dysgu digidol i sicrhau rhagoriaeth mewn darparu dysgu ar draws y sefydliad<br><br>Bod â chyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol dros y Cynorthwyydd Gweinyddol. |

| RHESTR O GYFRIFOLDEBAU | YN ATEBOL I |
|---|---|
| 1. Bod yn fodel rôl cadarnhaol ac yn arweinydd tîm, gan gymryd rôl weithredol wrth ymgorffori gweledigaeth, ymddygiadau a safonau'r Gwasanaeth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 2 Cefnogi datblygu'r cwricwlwm, a chynnal amserlen Canolfan hyfforddi gan sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu i fodloni gofynion a chyd-fynd ag egwyddorion darparu hyfforddiant ar sail fasnachol. Darparu cymorth ac arweiniad i'r rhai sy'n gyfrifol am ei defnyddio o ddydd i ddydd. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 3. Rheoli llwybrau staff, arfarniadau, hyfforddi a mentora, a phrosesau dyrchafiad, ac adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd. Bwrw ymlaen â’r holl atgyfeiriadau dysgu a datblygu sy’n deillio o'r prosesau hyn. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 4. Cefnogi gweithredu a rhedeg y strategaeth hyfforddi a mentora a gweithio gyda sefydliadau allanol sy'n darparu mynediad at rwydweithiau hyfforddi a mentora. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 5. Gweithio ochr yn ochr â rheolwyr yn yr adran i sicrhau bod rhaglen arweinwyr y dyfodol yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer yr holl bersonél. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 7. Cefnogi ymgeiswyr trwy gymwysterau dysgu a datblygu gan ystyried anghenion dysgu cynhwysol a phenodol gan ddefnyddio dulliau a damcaniaethau athronyddol cyfredol mewn partneriaeth â'r Adran AD. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 8. Cynnal statws y Ganolfan trwy gydlynu'r prosesau achredu a'r strategaethau cyfathrebu i gefnogi sicrhau ansawdd mewnol a gofynion sicrhau ansawdd allanol a chynnal cydymffurfiaeth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 9. Sicrhau bod unrhyw geisiadau cymorth Dysgu a Datblygu ychwanegol yn cael eu hwyluso ar gyfer ymgeiswyr, yn unol â disgwyliadau'r Gwasanaeth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 10. Cefnogi'r defnydd o atebion dysgu digidol arloesol, gan gynnwys llwyfannau e-ddysgu, ystafelloedd dosbarth rhithwir, ac offer dysgu rhyngweithiol gan ddefnyddio strategaeth ddigidol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 11. Darparu cefnogaeth barhaus, hyfforddiant, a chynnal cymhwysedd ar gyfer aseswyr mewnol, dilyswyr mewnol ac ymgeiswyr SFJ i gydymffurfio â'r strategaeth | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

| | |
|---|---|
| samplu a safoni. | |
| 12. Cadw cofnodion ar gyfer arolygu allanol a chysylltu â dilyswyr allanol i sicrhau bod statws y Ganolfan yn cydymffurfio â gofynion cyrff dyfarnu a'r holl fframweithiau addysgol a sector perthnasol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

| | |
|---|---|
| 13. Darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth ym maes addysg, dysgu a datblygu i sicrhau lles staff a myfyrwyr, a gweithredu fel hyrwyddwr dros newid mewn amgylchiadau a all fod yn heriol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 14. Cynrychioli'r Gwasanaeth a datblygu ac adeiladu perthnasoedd proffesiynol llawn ymddiriedaeth gyda phartneriaid mewnol ac allanol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 15. Cynorthwyo rheolwyr yr Adran i gynnal system hyfforddi a datblygu sy'n seiliedig ar gymhwysedd o fewn y Gwasanaeth. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 16. Darparu cymorth rheolwr llinell uniongyrchol i'r rôl Gweinyddwr Gradd 4 a darparu cymorth a goruchwyliaeth i weithwyr yr adran yn ôl yr angen i sicrhau bod amcanion yr adran yn cael eu cyflawni ac anghenion y gweithwyr yn cael eu diwallu. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 17. Rheoli trefniadau llywodraethiant y Gwasanaeth, sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau cyrff dyfarnu. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 18. Hwyluso hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer ymgeiswyr newydd sydd wedi'u cofrestru ar raglenni SFJ a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Cyswllt ag aseswyr mewnol i fonitro cynnydd ymgeiswyr. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 19. Cefnogi a datblygu aseswyr, dilyswyr mewnol ac ymgeiswyr SFJ gan ddefnyddio strategaeth samplu a safoni. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 20. Dylunio a darparu cyfleoedd dysgu i weddu i'r holl bersonél o fewn y sefydliad, fel gweminarau, a diwrnodau datblygu ac ati. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 21. Goruchwylio'r prosesau achredu a sicrhau y cedwir cydymffurfiaeth â gofynion cyrff dyfarnu allanol. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |
| 22. Darparu hyblygrwydd i weithio'n hwyr gyda'r nos ac ar benwythnosau achlysurol i gefnogi pob system ddyletswydd | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

| | |
|---|---|
| 23. Unrhyw ddyletswyddau pellach yr ystyrir eu bod yn rhesymol angenrheidiol, yn unol ag angen y Gwasanaeth, a fydd yn cael eu pennu gan y pennaeth corfforaethol ymateb brys, hyfforddiant a datblygu a/neu'r Prif Swyddog Tân. | Rheolwr Strategaeth Dysgu a Datblygu |

# Manylebau Personol

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Dirprwy Bennaeth Datblygu Pobl |
| **LLEOLIAD:** | Canolfan Hyfforddi Earlswood SA10 6NG |
| **GRADD:** | Gradd 8 |
| **ADRAN:** | Datblygu Pobl |

**CYMWYSTERAU/HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL/CYMWYSEDDAU**

| | HANFODOL | DYMUNOL | ASESIAD |
|---|---|---|---|
| 1. Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg neu gyfwerth | ✓ | | |
| 2. Tystysgrif Lefel 5 mewn Cymhwyster Hyfforddi | ✓ | | |
| 3. Diploma Lefel 5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth neu gyfwerth | ✓ | | |

**GWYBODAETH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Bod â'r profiad a'r wybodaeth sydd eu hangen i adolygu'r holl arferion dysgu a datblygu a gweithredu'r theorïau a'r dulliau rheoli addysg a dysgu diweddaraf. | ✓ | | |
| 5. Bod â phrofiad o greu strategaethau dysgu a datblygu i sicrhau arfer gorau a chynnal statws y Ganolfan gyda chyrff dyfarnu allanol. | ✓ | | |

**PROFIAD**

| | HANFODOL | DYMUNOL | ASESIAD |
|---|---|---|---|
| 6. Bod â phrofiad o weithredu technoleg dysgu digidol newydd lle bo hynny'n berthnasol. | ✓ | | |
| 7. Bod â phrofiad o weithredu ar lefel rheolwr canol ac arwain pobl ar lefel rheolwr canol | ✓ | | |

**SGILIAU PERSONOL / SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. Bod yn flaengar ac yn gallu gweithio mewn amgylchedd deinamig lle gallwch ddylanwadu ar ddyfodol dysgu a datblygiad yn y sector gwasanaethau brys | ✓ | | |
| 9. Profiad arweinyddiaeth ar lefel rheolwyr canol | ✓ | | |

**SGILIAU CYFATHREBU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. | | ✓ | |
| 11. Sgiliau rhagorol o ran cyfathrebu, dadansoddi a datrys problemau. | ✓ | | |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** **Safanol**

**CYFIAWNHAD:** ........................................................................................................................

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU: Mehefin 2025**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 27 Mehefin 2025

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk